

## Cyflwyniad i Decstilau Celf gan Karen O'Shea, artist tecstilau

I wneud tecstilau celf bach, bydd angen i chi gael:

Calico, cotwm neu liain

Cylch brodwaith

Siswrn miniog

Pinnau / Ffon glud

Pensil neu feiro y gellir ei ddileu â gwres (e.e. Frixion)

Edau brodwaith cotwm yn eich dewis o liwiau

Darnau o ddefnydd mewn lliwiau/patrymau addas

Nodwydd, yn ddelfrydol nodwydd frodio fain neu nodwydd drwsio gyda llygad sy'n hawdd i'w roi drwy nodwydd

Cynllun a phapur i'w ddargopïo a'i dorri allan.



### Dull:

Gosodwch y calico yn y cylch drwy roi'r defnydd dros y cylch lleiaf a gwasgu'r cylch mwy dros y top, yna tynhau'r cymhwysydd (*adjuster*) fel bod y defnydd yn debyg i drwm.

Torrwch ddarnau o ddefnydd yn gynllun a'u trefnu, yna eu pinio nhw ar y calico

Dargopïo'r cynllun (*trace*) a thorri o'i amgylch.

Dargopïo'r cynllun ar y defnydd drwy ddefnyddio pensil neu feiro y gellir ei ddileu â gwres

Datodwch ddarn o edafedd o'r sgein neu'r bobin. Torrwch ddarn i hyd braich.

Holltwch yr edafedd, drwy angori un pen yn eich dannedd tra byddwch chi'n cyfri'r edau fel y gallwch ddal rhai yn un llaw a rhai yn y llall, yna lledwch eich breichiau a daliwch ati i fwytho'r troad allan o un o'r setiau o edau.

Peidiwch â gollwng gafael ar unrhyw un o'r pennau, oherwydd bydd yr edau'n ceisio troi nôl a gallai droi'n glymau.

Rhowch edau yn y nodwydd drwy wlychu'r edafedd, ei binsio i bwynt miniog a'i basio'n ofalus drwy lygad y nodwydd. Clymwch gwllwm yn un pen trwy ddolennu a phasio'r pen drwodd. Cadwch y pen arall tua hanner ffordd rhwng y nodwydd a'r cwllwm drwy'r amser.

I ddechrau gwnïo, pasiwch bwynt miniog y nodwydd i fyny o ochr isaf y calico a gwthiwch y nodwydd i fyny yn y man rydych chi eisiau i'r pwyth ddechrau. Pan allwch chi, daliwch y nodwydd oddi uchod a'i thynnu drwy'r defnydd. Tynnwch eich pwyth yn gyffyrddus o dynn, ond ddim yn rhy dynn fel ei fod yn achosi i'r ffabrig grychu. Peidiwch ag anghofio bod angen pasio'r nodwydd drwy'r defnydd o'r ochr lle mae'r edafedd yn barod, i'r ochr arall.

Defnyddiwch gyfuniad o bwythau syml (fel pwyth rhedeg ac ôl-bwyth ar gyfer dilyn llinell, a phwyth hedyn ar gyfer graddliwio) i bwytho ar hyd llinellau eich cynllun i ddatblygu eich prosiectau cyntaf.

I newid lliw, gorffennwch gydag un lliw drwy basio'r nodwydd yn ofalus drwy gefn y pwythau cyfredol.

Pan fydd y cynllun cyfan wedi'i bwytho, llaciwch y caead metel ar y cylch a rhyddhau'r cynllun o'r cylch.

Yna gellir ei smwddio, a'i osod neu ei fframio.



[www.karenoshea.co.uk](http://www.karenoshea.co.uk)

karenosheaart ar y cyfryngau cymdeithasol